

Rhif: WG17661



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Lleoedd Lewyrchus Llawn Addewid

Fframwaith Adfywio Newydd

Tudalen

Cynnwys

1	Cyflwyniad	3
2	Crynodeb o'r ymatebion	4
3	Camau nesaf	15
Atodiad 1	Rhestr lawn o'r ymatebwyr	16

1 Cyflwyniad

1.1 Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori **Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid: Fframwaith Adfywio Newydd** ar 22 Hydref 2012 ac roedd yn agored i ymatebion tan 14 Ionawr 2013. Gwahoddodd y ddogfen ymgynghori yr ymatebwyr i roi eu barn ar y chwe phrif gwestiwn ymgynghori canlynol:

- Pa sylwadau sydd gennych o ran gwersi a ddysgwyd hyd yma wrth gyflawni'r gwaith hwn?
- A ddylid ystyried unrhyw ganlyniadau neu egwyddorion cenedlaethol eraill?
- Beth arall y gallwn ei wneud er mwyn cydweithio'n fwy a sicrhau gwell cydlyniant ar draws adrannau?
- A ydych yn cytuno â'r dulliau gweithredu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a amlinellwyd?
- Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch ein cynigion ar gyfer y modd y byddwn yn targedu ac yn defnyddio ein cyllid?
- Rydym am sicrhau bod y gweithgareddau adfywio yn cael eu monitro a'u gwerthuso'n effeithiol. A fydd y dull o weithredu a argymhellir yn cyflawni hynny?

1.2 Derbyniwyd cyfanswm o 144 ymateb. Deilliai'r ymatebion o'r sectorau canlynol:

- Awdurdodau lleol, gan gynnwys awdurdodau lleol yn cydweithredu – 27 (19%)
- Sefydliadau trydydd sector – 26 (18%)
- Sefydliadau sector preifat – 18 (13%)
- Cyrff proffesiynol – 12 (8%)
- Cymdeithasau tai – 11 (8%)
- Sefydliadau sector cyhoeddus – 10 (7%)
- Unigolion - 10 (7%)
- Sefydliadau iechyd – 10 (7%)
- Gwleidyddion (cenedlaethol a lleol) – 5 (3%)
- Partneriaethau amlddisgyblaethol – 3 (2%)
- Cynghorau cymuned a chynghorau tref – 3 (2%)
- Sefydliadau eraill – 9 (6%). Roedd y rhain yn cynnwys sefydliadau eglwys, cyllid, morol, addysg uwch, manwerthu, twristiaeth, cludiant ac adfywio.

Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Atodiad 1. Fel y gwelir, daeth ymatebion i law gan unigolion a sefydliadau'n cynrychioli buddiannau ar draws portffolio cyfan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth a thu hwnt i gynnwys portffolio pob aelod o'r Cabinet. Daeth nifer o ymatebion i law gan sefydliadau sydd â'u pencadlys yn Lloegr, ond dim ond un ymateb a gafwyd gan sefydliad wedi'i leoli yn Lloegr nad oes ganddo swyddfa yng Nghymru.

1.3 Ochr yn ochr â'r broses ymgynghori ffurfiol, cynhaliwyd tri gweithdy rhanbarthol yn ystod mis Rhagfyr 2012 a mis Ionawr 2013 gyda thua 50 o bobl yn bresennol ym mhob un . Cafwyd trafodaethau yn yr uwchgynhadledd adfywio a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd lle'r oedd dros 200 o bobl yn bresennol.

2 Crynodeb o'r ymatebion

- 2.1 Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad isod. Yn gyntaf, rhoddir sylwadau cyffredinol a chaiff gweddiill y deunydd ei gynnwys o dan y chwe phrif gwestiwn ymgynghori y gofynnwyd am ymateb iddynt. Bydd manylion sydd i'w gweld yn llawer o'r ymatebion ymgynghori yn parhau i lywio datblygiad parhaus y fframwaith adfywio. Ceir sawl cynnig o gymorth a chefnogaeth benodol yn yr ymatebion ymgynghori ac mae'r rhain wedi'u coladu. Rhoddir ymateb iddynt wrth i'r fframwaith ddod i rym.

Sylwadau cyffredinol

- 2.2 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a wnaeth sylwadau cyffredinol yn gadarnhaol ynglŷn â'r cyfeiriad a osodwyd yn y ddogfen ymgynghori. Yn fwyaf arbennig, rhoddwyd croeso i'r canlynol:
- dyheadau ar gyfer gweithredu ar draws llywodraethau a sicrhau bod ymgysylltu'n digwydd â phob sector, a'u bod yn cael eu cynnwys
 - cydnabyddiaeth bod adfywio llwyddiannus a chynaliadwy yn dibynnu ar sicrhau perthynas agos rhwng rhaglenni prif ffrwd
 - cysylltiadau cadarn â Cymunedau yn Gyntaf a gweithgarwch adfywio arall
 - symud oddi wrth strategaethau tymor byr i strategaethau ac amserlenni cyllido mwy hirdymor
 - ymrwymiad i fynd ati i adfywio mewn modd mwy holistaidd ar lefel ranbarthol, gyda chynlluniau rhanbarthol cydlynol ar gyfer adfywio'n lleol
 - dull tryloyw o ddyrannu cyllid ar sail tystiolaeth
- 2.3 Ystyriai nifer fach o ymatebwyr nad oedd y ddogfen yn cynnwys digon o uchelgais a nodwyd nad oedd y dull o fynd ati a amlinellir ynddi yn arbennig o wahanol i'r hyn a fu ar waith ers peth amser.
- 2.4 Cafwyd ymholiadau cyffredinol gan gyfran sylweddol o ymatebwyr ynglŷn â materion cyflawni manwl. Hefyd, nododd nifer o ymatebwyr feysydd oedd heb gael digon o sylw yn y ddogfen yn eu barn nhw, yn cynnwys y canlynol:
- ystyriaeth fwy penodol ynglŷn â pham y mae adfywio'n anodd a'r newid y bydd ei angen yn y diwylliant gwaith er mwyn cyflawni agenda adfywio fwy integredig a chynaliadwy
 - yr hyn a ddysgwyd o elfennau amrywiol o'r adolygiad a gafodd eu cynnwys fel dogfennau ategol i'r drafft o'r fframwaith adfywio
 - yr angen am economïau cytbwys, yn hytrach na rhai 'cryf' yn unig
 - potensial y fframwaith i dargedu potensial ar gyfer adfywio cynaliadwy, yn ogystal â mynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd

- sut y byddai'r fframwaith yn gweithio mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru a sut y gallai'r Cynllun Datblygu Gwledig ffurfio rhan o'r broses adfywio
- yr angen am fwy o fanylder ac ystyriaeth mewn nifer o feysydd, yn cynnwys:
 - integreiddio strategaethau lefel uchel megis y Rhaglen Lywodraethu a'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru â'r fframwaith adfywio
 - integreiddio mesurau Llywodraeth Cymru (tai, cynllunio, datblygu cynaliadwy, iechyd cyhoeddus ac ati) â'r fframwaith adfywio¹
 - integreiddio â rhaglenni gofodol eraill megis Dinas-ranbarthau, Ardaloedd Menter ac ati
 - dyletswydd y Gweinidog i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel y'i mynegir ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)²
 - cynnwys cymunedau mewn adfywio
 - mwy o bwyslais ar ddatblygu sgiliau a chreu swyddi
 - ynni
 - trafnidiaeth, gan gynnwys teithio llesol a chludiant cymunedol
 - pwyslais cryfach ar adfywio a arweinir gan dai (trwy adeiladu, gwella a dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd)
 - yr iaith Gymraeg
 - rôl twristiaeth
 - gwerth treftadaeth i adfywio ac agweddau penodol ar dreftadaeth er enghraifft, treftadaeth forol, afonydd a chamlesi
 - rhaglen Cefnogi Pobl
- sicrhau defnydd llawn o sgiliau a phrofiad partneriaid cyflawni posibl megis Comisiwn Dylunio Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, cymdeithasau tai, swyddogion galluogi tai gwledig ac amryw o sefydliadau cyllido
- yr angen o fewn y fframwaith am beth hyblygrwydd ar gyfer atebion o'r gwaelod i fyny
- gwerth asesu effaith (ee asesu effaith ar iechyd, asesu effaith ar gydraddoldeb) wrth ddatblygu'r fframwaith yn y dyfodol

2.5 Hefyd, achubodd ymatebwyr ar y cyfle i nodi meysydd a fyddai, yn eu barn nhw, yn allweddol i gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion a nodwyd yn y ddogfen:

- gweithredu dull hirdymor, strategol o fynd ati yn seiliedig ar ddull o weithredu ar draws y llywodraeth gyfan, gyda Llywodraeth Cymru yn arwain drwy esiampl gan ddangos ymagwedd gydgyssylltiedig ar draws y portffolios Gweinidogol
- yr angen am gynllun gofodol trosfwaol ar gyfer rhoi'r fframwaith adfywio ar waith
- lleihau biwrocratiaeth

¹ Ee mae polisiâu a deddfwriaeth iechyd Llywodraeth Cymru yn cynnwys Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), Law yn Llaw at Iechyd ac Ein Dyfodol Iach

² Mae gan fenter dinasoedd cyfeillgar i blant Unicef fframwaith ar gyfer gweithredu y gellir ei defnyddio i lywio polisiâu a strategaethau

- yr angen i symud i ffwrdd o ddull sy'n seiliedig bron yn gyfan gwbl ar ymyrraeth y sector cyhoeddus a chymhorthdal ac un sy'n cynnwys mewnbwn gan y sector preifat, yn ogystal â denu buddsoddiadau o'r tu allan
- swyddogaeth allweddol y sector preifat a'r her o ymgysylltu â'r sector preifat mewn modd ystyrlon ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol mewn cyd-destun lle gallai ymddangos mai ychydig iawn o gymhelliant sydd dros ymgysylltiad o'r fath
- cydgysylltu trefniadau llywodraethu, gan sicrhau bod y strwythurau presennol wedi'u hadeiladu ar, ac yn cysylltu'n eglur â mentrau adfywio daearyddol eraill megis y Dinas-ranbarthau a'r Ardaloedd Menter, yn ogystal â threfniadau cynllunio strategol eraill
- cyfathrebu effeithiol a gweithio mewn partneriaeth wirioneddol

- 2.6 Er bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn croesawu'r trefniadau llywodraethu rhanbarthol mewn egwyddor, roedd nifer sylweddol o ymatebwyr yn mynegi pryder neu'n gofyn cwestiynau ynglŷn â'r agwedd hon ar y cynigion. Materion penodol a nodwyd gan nifer o ymatebwyr o'r sector llywodraeth leol oedd yr her i atebolrwydd democrataidd a'r amrywio o ran anghenion, blaenoriaethau a phwysau adfywio o fewn y rhanbarthau arfaethedig. Dywedodd nifer fach o ymatebwyr o sectorau eraill ei bod yn well ganddynt berthynas gyllido uniongyrchol â Llywodraeth Cymru yn hytrach nag â strwythur llywodraethu rhanbarthol, a nododd eraill yr adnoddau fyddai'n rhaid eu buddsoddi er mwyn cynnal lefel lywodraethu o'r fath a allai gyfyngu ar yr adnoddau a fyddai ar gael yn lleol.
- 2.7 Achubodd nifer fach o ymatebwyr ar y cyfle i gyflwyno'r achos dros gadw statws ardal adfywio bresennol fel y gellid cynnal mynediad i gyllid a momentwm adfywio. Ystyriai'r ymatebwyr hyn na fyddai model rhanbarthol yn ddefnyddiol o ran cyflawni eu huchelgais ar gyfer lleoedd penodol.
- 2.8 Dywedodd cyfran sylweddol o ymatebwyr yn bendant eu bod yn barod i gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r fframwaith ymhellach a/neu gefnogi ei weithrediad.

Pa sylwadau sydd gennych o ran gwersi a ddysgwyd hyd yma wrth gyflawni'r gwaith hwn?

- 2.9 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cydnabod cryfderau a chyfyngiadau'r dull o fynd ati hyd yn hyn fel y'i disgrifiwyd yn y papur ymgynghori. Teimlai'r rhai oedd â chysylltiad uniongyrchol â'r cysyniad o ardal adfywio iddo fod o fudd, ond ei fod wedi gorfod wynebu nifer o heriau, yn cynnwys: cyllido blynyddol, amserlenni byr ar gyfer gweithredu, diffyg cyllid refeniw, ffiniau daearyddol anhyblyg, diffyg sgiliau adfywio mewn sectorau allweddol, adnoddau'n cael eu gwasgaru'n rhy denau, dim digon o ymwneud ar ran y sector preifat, diffyg eglurder mewn perthynas â'r hyn yr oedd disgwyl i brosiectau cymunedol eu cyflawni a diffyg systemau gwerthuso.
- 2.10 Tynnodd ymatebwyr sylw at yr hyn a ddysgwyd o fathau amrywiol eraill o adfywio. Er enghraifft, ystyriwyd bod gwersi cadarnhaol wedi'u dysgu o amryw o ffurfiau o adfywio a arweinir gan dai, yn cynnwys rhaglenni Safon Ansawdd Tai Cymru,

cyflwyno tai fforddiadwy, gwaith arbed ynni megis Arbed, ardaloedd adnewyddu a dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd. Roedd mathau eraill o sefydliadau bellach yn gwneud yr un peth o ran defnyddio caffael gan sefydliadau tai i greu manteision cymunedol a thargedu recriwtio a hyfforddi ac mae potensial pellach i hyn yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.

2.11 Nodwyd gwersi o wledydd eraill yn cynnwys yr Alban mewn perthynas â system yn seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer rheoli perfformiad drwy'r Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol³.

2.12 Yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o gyflawniad a phrofiad blaenorol, nododd ymatebwyr nifer o feysydd y teimlent y gellid eu hymgorffori yn y fframwaith, gan gynnwys y canlynol:

- yr ystyriaeth bod adfywio'n galw am arweiniad cryf, a sgiliau cydgysylltu a rheoli er mwyn dod â'r sectorau a'r sefydliadau amrywiol sydd angen eu cynnwys at ei gilydd.
- yr angen am gynllunio strategol o ansawdd uchel
- cydnabyddiaeth bod adfywio'n gallu amrywio o brosiectau cymharol fach am gyfnod cyfyngedig o amser i brosiectau mawr sydd i'w cyflawni dros lawer o flynyddoedd a bod angen buddsoddi cyllid adfywio lle y gall ychwanegu'r gwerth mwyaf
- cydnabod swyddogaeth ystod eang o bartneriaid, yn cynnwys partneriaid sy'n ffynonellau cyllido posibl, ee Y Gronfa Loteri Fawr a'r sector preifat a sut y gallai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â nhw ar lefel genedlaethol
- bod angen newidiadau mewn ymddygiad i gael partneriaethau'n seiliedig ar barch a chynwysoldeb
- bod adfywio cynaliadwy yn galw am ymgysylltiad cymunedol a dylai adfywio ganolbwyntio mwy ar gyd-nerthu cymunedol
- rhaid cefnogi dull hirdymor o weithredu law yn llaw â chyfnodau adolygu rheolaidd er mwyn sicrhau nad yw prosiectau'n colli eu ffocws
- mae yna heriau i ardaloedd gwledig o ran mynediad i gyllid adfywio os yw dyrannu adnoddau'n seiliedig ar fynegeion amddifadedd
- yr angen am gydgysylltu trefniadau trechu tlodi, diogelwch cymunedol a lleihau troseddau sydd ar waith eisoes ar lefel leol
- bod adfywio'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o drechu anghydraddoldebau iechyd mewn cymunedau 'mewn perygl'
- yr angen am integreiddio dulliau o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny

³ <http://www.scotland.gov.uk/About/Performance/scotPerforms>

- 2.13 Nododd nifer o ymatebwyr fod angen gofal wrth symud i ffwrdd o'r model cyfredol; mae angen egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau er mwyn sicrhau cyflawniad cadarn yn lleol yng nghyd-destun cynllunio a datblygu strategaeth yn genedlaethol a rhanbarthol.
- 2.14 Nodwyd effaith diwygio lles gan nifer o ymatebwyr fel ffactor sy'n creu mwy o angen am adfywio mewn rhai cymunedau, yn ogystal â'r posibilrwydd y bydd yr adnoddau sydd gan sefydliadau i'w buddsoddi mewn gwasanaethau a mentrau yn lleihau.

A ddylid ystyried unrhyw ganlyniadau neu egwyddorion cenedlaethol eraill?

- 2.15 Croesawyd yr aliniad â chanlyniadau rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Fodd bynnag, nodwyd bod angen i ganlyniadau weithio hefyd i ardaloedd nad ydynt yn rhan o Cymunedau yn Gyntaf mewn cyd-destunau gwledig a threfol. Holodd nifer o ymatebwyr a oes angen canlyniadau penodol ar gyfer ardaloedd gwledig.
- 2.16 Nododd ymatebwyr amrywiaeth o ganlyniadau ychwanegol o dan y tri chanlyniad cyffredinol a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori:

Cymunedau Ffyniannus

Creu swyddi

Darparu tir addas i'w ddatblygu

Darparu, a gwella, seilwaith yn cynnwys cysylltiad band eang a ffonau symudol

Rhwydwaith trafndiaeth o ansawdd uchel, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda

Polisiâu caffael cefnogol

Newid mewn Gwerth Ychwanegol Crynswth a chynhyrchiant

Cydnerthu cymunedau rhag effeithiau newid yn yr hinsawdd a chefnogi'r newid i economi carbon isel

Lefel tlodi tanwydd

Cymunedau sy'n dysgu

Gwella cysylltiadau band eang a ffonau symudol

Hybu creadigrwydd ac arloesedd

Cyfeiriadau mwy penodol at weithgarwch celfyddydol a diwylliannol

Meithrin dealltwriaeth well o dreftadaeth, gwerthfawrogiad o ddiwylliant lleol a'r amgylchedd trefol a naturiol

Cymunedau iachach

Cynaliadwyedd (yn ei ystyr ehangaf) a datblygu cynaliadwy

Mynediad i fannau agored hygrych, wedi'u cynllunio'n dda a mannau gwyrdd naturiol hygrych

Ymyriadau mewn perthynas â phlant a theuluoedd yn ystod y blynyddoedd cyn-ysgol

Mannau diogel i blant a phobl ifanc chwarae a dod at ei gilydd

Mynediad da i gyfleusterau gofal iechyd, yn ôl angen

Hybu cyfleoedd ar gyfer gweithgaredd corfforol i'r eithaf

Cyfyngu ar fynediad i fwyd o werth maethol isel ger mannau lle mae plant yn ymgynnull
Amgylchedd hanesyddol a naturiol wedi'i reoli'n dda
Amgylcheddau lleol cynaliadwy ac o ansawdd da
Mynediad i wasanaethau
Pwyslais ar wella iechyd a mesurau iechyd ataliol

2.17 Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr ganlyniadau lefel uchel ychwanegol:

- cymunedau sy'n cael eu cynnwys a'u grymuso
- cymunedau sy'n cymryd rhan
- lleihau anghydraddoldebau (yn enwedig mewn perthynas â chanlyniadau iechyd)

tra galwai eraill, megis Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, am gydgysylltu'r gwaith sy'n cael ei wneud ganddynt ar ganlyniadau â chanlyniadau'r fframwaith adfywio.

2.18 Holodd nifer o ymatebwyr a oedd ffocws digon clir ar dai yn y canlyniadau a awgrymwyd o ystyried bod adeiladu, gwella ac adnewyddu tai, a dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd, oll â photensial sylweddol o ran adfywio.

2.19 Nododd nifer o ymatebwyr y bydd angen gwaith pellach er mwyn gwella canlyniadau, diffinio sut y cânt eu mesur ac egluro sut y dylid eu monitro. Teimlid y dylai defnyddio Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau sicrhau bod mesuriadau'n canolbwyntio ar y gwahaniaeth y mae adfywio yn ei wneud i bobl yn hytrach nag ar allbynnau neu brosesau.

Beth arall y gallwn ei wneud er mwyn cydweithio'n fwy a sicrhau gwell cydlyniant ar draws adrannau?

2.20 Roedd syniadau gwahanol gan yr ymatebwyr ynglŷn ag i ba raddau yr oedd angen i bortffolios Gweinidogol newid er mwyn sicrhau mwy o gydlyniant. Teimlai rhai fod cael pob elfen o adfywio mewn un portffolio'n hanfodol, ond ystyriai eraill y gellid cyflawni'r canlyniadau a ddymunir trwy weithio agosach rhwng portffolios. Roedd yr ymatebion yn fwy cyson mewn perthynas â'r angen i drin holl gyllideb Llywodraeth Cymru fel un ag iddi botensial adfywio, er enghraifft trwy gaffael effeithiol yn cynnwys manteision cymunedol a thargedu recriwtio a hyfforddi.

2.21 Gwelwyd bod Total Place⁴, sy'n mynd ati drwy fapio a thargedu pob gwariant cyhoeddus ar draws meysydd dethol, yn gallu creu arbedion sylweddol a chydgyssylltu a darparu gwasanaethau yn well. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at y dull fel ffordd ddefnyddiol o greu gweithgarwch ar draws adrannau.

2.22 Teimlai ymatebwyr fod sicrhau cysylltiad effeithiol rhwng pob un o'r dogfennau strategol lefel uchel allweddol megis y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a sicrhau bod deddfwriaeth fel y Mesurau Datblygu Cynaliadwy a Chynllunio yn cefnogi'r fframwaith yn hanfodol er mwyn lleihau cymhlethdod y polisi a'r dirwedd ddeddfwriaethol.

⁴ Total Place <http://www.localleadership.gov.uk/totalplace/>

2.23 Mae'r awgrymiadau ymarferol eraill ar gyfer Llywodraeth Cymru yn cynnwys y canlynol:

- mapio ymyriadau adfywio a datblygu economaidd er mwyn manteisio ar y gorgyffwrdd eglur a'r hyn sy'n gyffredin rhwng y ddau faes hwn
- sicrhau bod y model achos busnes yn ystyried manteision trawsbynciol ac yn blaenoriaethu gwariant yn gyffredinol
- mwy o ddefnydd o asesu effaith iechyd mewn gweithgarwch adfywio
- seilio partneriaethau ar weledigaeth a rennir, nid ar gyfyngiadau cyllidebol
- mwy o weithio ar y cyd rhwng gweision sifil, llywodraeth leol a chynrychiolwyr o'r sector preifat a'r sector gwirfoddol
- sicrhau bod llywodraethu'r fframwaith newydd mor syml â phosibl
- darparu eglurder ynglŷn â swyddogaethau'r gwahanol sectorau, trwy ddarparu fframwaith neu brotocol clir yn nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau ar draws yr adrannau
- ystyried a ellid cefnogi'r dull o weithio gyda chanlyniadau drwy waith pellach i ddatblygu dangosyddion a rennir
- cymhwyso Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau ar bob lefel
- aelodaeth Grŵp Cyngori'r Gweinidog i gynnwys pob adran berthnasol o Lywodraeth Cymru
- datblygu strategaeth gyfathrebu i gefnogi'r fframwaith adfywio sy'n darparu fframwaith ar gyfer cyfathrebu a lledaenu'r strategaeth i bartneriaid allanol
- datblygu un ffynhonnell wybodaeth ynglŷn â'r holl grantiau sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru; gellid ymestyn hyn i gynnwys prif ffynonellau cyllid adfywio eraill yng Nghymru

A ydych yn cytuno â'r dulliau gweithredu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a amlinellwyd?

2.24 Er bod llawer o ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r angen am strwythurau ar wahanol lefelau i gynnal y fframwaith, mynegwyd pryderon ynglŷn â chael gormod o gyrff cyflawni a threfniadau llywodraethu. Mae angen bod yn eglur iawn ynglŷn â swyddogaeth y gwahanol lefelau llywodraethu a gwerth pob lefel. Un ffordd o wneud hyn yn ôl nifer o ymatebwyr yw drwy gynllunio gofodol cryf.

2.25 Hefyd, nododd ymatebwyr fod angen i ni sicrhau bod y gweithgarwch cywir yn digwydd ar y lefel gywir er mwyn cynorthwyo'r gwaith o gyflawni canlyniadau, yn hytrach nag arafu'r broses. Teimlid bod cadw ffocws cymunedol ar adfywio hefyd yn hollbwysig a rhoddwyd croeso i'r ffaith bod y ddogfen yn cydnabod mai mater lleol yw adfywio yn y bôn. Nodwyd bod swyddogaeth bwysig gan Fyrddau

Gwasanaethau Lleol ar lefel yr awdurdod lleol gan eu bod yn cynnwys pob rhanddeiliaid perthnasol. Yn yr un modd, gall Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref chwarae rhan bwysig ar lefel leol.

- 2.26 Teimlid mai un swyddogaeth eglur ar gyfer Llywodraeth Cymru a Grŵp Cynghori'r Gweinidog oedd datblygu'r fframwaith, yr egwyddorion a'r themâu, yna cyfathrebu gweledigaeth y fframwaith a'r canlyniadau dymunol i sefydliadau allanol, yn cynnwys sefydliadau sy'n ffynonellau cyllid posibl.
- 2.27 Galwyd am eglurder mewn perthynas ag aelodaeth Grŵp Cynghori'r Gweinidog, ei gylch gorchwyl, gweithdrefnau recriwtio a sut y byddai'r sectorau amrywiol yn cael eu cynrychioli yn y grŵp, atebolrwydd a dull o ddelio â gwrthdaro buddiannau posibl/gwirioneddol. Teimlai nifer o ymatebwyr fod cynnwys y sector preifat yn y Grŵp Cynghori yn hanfodol ond yn heriol.
- 2.28 Nododd ymatebwyr yr amrywiaeth yng ngraddfa ofodol gweithgarwch rhanbarthol. Mae prif swyddogion hamdden awdurdodau lleol yn defnyddio pedwar rhanbarth ar gyfer strwythuro eu gwaith. Hefyd, ceir patrwm llywodraeth leol o chwe rhanbarth, gyda chwe bwrdd rhanbarthol Cymunedau yn Gyntaf. Mae gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru dri bwrdd partneriaeth rhanbarthol ac mae bwrdd gan bob un o'r ardaloedd adfywio presennol. Argymhellwyd dau ddinas-ranbarth, mae Ardaloedd Menter ac Ardaloedd Twf Lleol yn datblygu ac mae elfen ofodol i'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.
- 2.29 Cyfeiriodd nifer o ymatebion o'r sector llywodraeth leol at fater atebolrwydd democrataidd y teimlent nad oedd y ddogfen ymgynghori wedi'i drafod. Nododd ymatebion eraill fod y mater hwn wedi'i drafod mewn perthynas â nifer o drefniadau rhanbarthol, yn cynnwys trefniadau Cefnogi Pobl lle cytunwyd ar drefn o rannu cyfrifoldebau rhwng y rhanbarthau ac awdurdodau lleol. Teimlir bod angen peth hyblygrwydd ar lefel ranbarthol er mwyn adlewyrchu'r cysylltiadau sydd rhwng rhai rhanbarthau a Lloegr, a rhyngddynt â'i gilydd.
- 2.30 Un thema gyson yn yr ymatebion oedd y dylai'r trefniadau llywodraethu newydd fod mor syml â phosibl, heb ddyblygu gwaith byrddau sy'n bodoli, ac yn dryloyw, yn atebol ac yn gynhwysol. Hefyd, gwnaed achos cryf dros ystyried a allai strwythurau/cyrff rhanbarthol sy'n bodoli'n barod gyflawni'r swyddogaethau gofynnol. Fodd bynnag, lleisiwyd rhybudd ynglŷn ag i ba raddau y mae'r holl sectorau yn chwarae rhan lawn yn y strwythurau presennol.
- 2.31 Nododd nifer o ymatebion yr angen i ystyried yn ofalus a ddylid datgomisiynu'r ardaloedd adfywio presennol a'u byrddau ac am eglurder absoliwt ynglŷn â beth sydd i'w wneud a phryd.
- 2.32 Cafwyd consensws ynglŷn â'r angen i gael cynrychiolwyr o bob sector ar bob lefel o'r strwythurau llywodraethu, yn cynnwys y trydydd sector a'r sector preifat, ac i sicrhau ystod eang o sgiliau perthnasol. Soniodd sawl ymatebydd am swyddogaeth cynrychiolaeth gymunedol ar y byrddau. Nodwyd bod swyddogaeth cadeiryddion y strwythurau llywodraethu amrywiol yn hollbwysig, ynghyd â'r angen i ddethol cadeiryddion ar sail set eglur o sgiliau ac arbenigedd. Teimlid bod angen ystyried y broses o ddethol aelodau'r byrddau'n ofalus ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, a bod angen proses eglur a thryloyw. Bydd angen eglurder absoliwt

ynglŷn â swyddogaeth, diben a mesurau diogelwch er mwyn gwireddu manteision cydweithredu rhanbarthol.

- 2.33 Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at rôl swyddogion Llywodraeth Cymru yn y gwaith o gefnogi cyflawniad y fframwaith adfywio. Y nod yw sicrhau tryloywder ynglŷn â strwythurau a swyddogaethau staff wrth i'r fframwaith newydd ddatblygu.
- 2.34 Ystyrid ei bod yn werth edrych ar y potensial ar gyfer cytundebau canlyniadau rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol fel sail ar gyfer mesur cyflawniad canlyniadau adfywio.

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch ein cynigion ar gyfer y modd y byddwn yn targedu ac yn defnyddio ein cyllid?

- 2.35 Croesawodd ymatebwyr y dull o gyllido sy'n seiliedig ar bobl ac ar leoedd. Fodd bynnag, dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad y tensiwn eglur rhwng targedu cyllid at yr ardaloedd mwyaf difreintiedig ac anelu hefyd at sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer cyfleoedd. Hefyd, tynnodd yr ymatebion sylw at y swm cymharol fach o gyllid adfywio penodol sydd ar gael i danategu'r gwaith o weithredu'r fframwaith newydd a'r perygl o rannu cyllid yn rhy denau gan leihau'r tebygolrwydd o allu creu effaith sylweddol.
- 2.36 Cododd nifer o themâu o'r ymatebion.

Potensial adfywio cyllideb gyfan Llywodraeth Cymru

Mae'r gyllideb adfywio'n fach, yn enwedig o'i chymharu â chyllideb gyfan Llywodraeth Cymru. Galwai nifer o'r ymatebion am i'r gyllideb gyfan gael ei thrin fel un â photensial adfywio a sicrhau bod manteision cymunedol a thargedu recriwtio a hyfforddi yn cael lle yn y broses gaffael lle bynnag y bo modd.

Nododd yr ymatebwyr y dylai'r fframwaith gyfeirio at y pwysau ariannol sy'n wynebu llawer o sefydliadau ar hyn o bryd, gyda phwyslais ar wneud mwy â llai.

Blaenoriaethu cyllid

Cyfeiriodd ymatebwyr at sawl mater a chyfrannu nifer o awgrymiadau mewn perthynas â sut y gellid blaenoriaethu cyllid o dan y fframwaith newydd:

- teimlid bod y cysylltiad â phenderfyniad ar Ddinas-ranbarthau yn rhan allweddol o'r cyd-destun ar gyfer penderfynu sut y gellid blaenoriaethu cyllid
- byddai angen adlewyrchu'r cydbwysedd rhwng ffactorau adfywio trefol a gwledig ym meini prawf gwerthuso y prosiectau
- un ffordd bosibl o fynd ati fyddai cyfeirio arian tuag at nifer o themâu, a ffordd arall fyddai seilio cyllido ar gyflawni amcanion eglur iawn. Dewis arall fyddai rhoi blaenoriaeth i leihau anghydraddoldebau, felly byddai aneddiadau/ardaloedd lle mae penderfynyddion iechyd sylfaenol, er enghraifft, yn fwyaf anffafriol ar hyn o bryd, yn denu cyllid
- gellid cynllunio cyllid adfywio yn benodol ar gyfer cefnogi cydweithredu ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector

- er bod dull o weithredu ar sail tystiolaeth wedi cael croeso, nododd nifer o ymatebwyr y dylai fod peth buddsoddiad ar gael ar gyfer dulliau heb eu profi hyd yn hyn er mwyn cefnogi arloesedd ym maes adfywio a fydd, yn ei dro, yn cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth y dyfodol
- dylid sicrhau cyllid ar gyfer lleoedd 'llwyddiannus', ee safleoedd tir llwyd, er mwyn dod â nhw'n ôl i ddefnydd buddiol
- dylid sicrhau cyllid hefyd ar gyfer mentrau bach a all wneud gwahaniaeth mawr i ansawdd bywydau pobl
- dylai meini prawf manwl ar gyfer gwerthuso ceisiadau am gyllid fod yn ddarostyngedig i ymgynghori mwy manwl wrth iddynt godi
- dylai fod fformiwla eglur ar gyfer y dyraniadau cyllid dangosol i ranbarthau
- gallai gofynion caeth ar gyfer arian cyfatebol lesteirio rhai prosiectau neu fentrau
- croesewir refeniw ar gyfer cynllunio, mapio a datblygu syniadau, ond dylai fod cyfyngiad amser arno

Awgrymwyd nifer o feini prawf cyllido ychwanegol; hyfywedd cynlluniau ar gyfer creu swyddi a mentrau newydd, argymhellion ar gyfer cynnwys grwpiau difreintiedig wrth weithredu prosiectau, dyfnder a graddau cynlluniau ar gyfer ymgysylltiad cymunedol a chynlluniau ar gyfer hyrwyddo gwerthfawrogiad o'r amgylchedd naturiol a diwylliannol.

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at fater penodol mewn perthynas â dyfodol cyllid ardaloedd adnewyddu tai. Ystyriant fod sylfaen dystiolaeth gref sy'n dynodi bod manteision sylweddol i ardaloedd adnewyddu ac y dylid eu cadw.

Teimlid bod angen eglurder ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â chyllido'r ardaloedd adfywio presennol.

Y sylfaen dystiolaeth ar gyfer cyllido

Nododd nifer o ymatebwyr y gallai prosesau presennol ar gyfer casglu tystiolaeth a data ee y rhai sy'n sail i Gynlluniau Integredig Sengl, ffurfio rhan ganolog o'r gwaith o ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth.

Pwy sy'n gwneud y penderfyniadau

Cafodd nifer o safbwyntiau gwahanol eu cyflwyno. Teimlai nifer fach o ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru benderfynu ynglŷn â chyllido ar sail y dystiolaeth bresennol, yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i'r rhanbarthau gasglu tystiolaeth a nodi blaenoriaethau ar gyfer cyllido. Hefyd, ystyriai nifer fach o ymatebwyr mai ar gyfer yr awdurdodau lleol y dylid darparu cyllid dangosol ac nid ar gyfer y byrddau rhanbarthol.

Cysylltu â ffynonellau cyllid eraill

Amlygwyd pwysigrwydd cysylltu cyllid adfywio â ffynonellau cyllid eraill gan fwyafrif sylweddol o'r ymatebwyr. Rhaid i'r cysylltiadau rhwng gwahanol ffrydiau cyllido fod yn eglur. Yn fwyaf arbennig, rhaid i gyllid strwythuro'r UE ar ôl 2013 fod wedi'i ymgorffori yn y fframwaith, ac mae angen gwaith pellach er mwyn egluro'r aliniad â chyllid o'r UE.

Os yw prosiectau'n cael eu cyllido o sawl ffynhonnell, mae gan Lywodraeth Cymru swyddogaeth arweiniol hollbwysig i sicrhau nad oes unrhyw gystadleuaeth ddiangen.

Galwodd nifer o ymatebwyr am adolygu'r ffynonellau cyllid amrywiol sydd ar hyn o bryd yn mynd at adfywio, gyda'r nod o ystyried y ffordd orau o'u cronni/cyfuno er mwyn sicrhau mwy o effaith ar draws y portffolios Gweinidogol. Teimlai eraill fod symleiddio ffrydiau cyllid yn hanfodol er mwyn cyflawni nodau'r fframwaith.

Cyllid hirdymor

Nododd nifer o ymatebwyr fod cyllid blynyddol neu fyrdymor yn achosi problemau, gan gyfeirio at y tensiwn rhwng cyllid adfywio byrdymor a gweithgarwch adfywio hirdymor.

Gan gydnabod bod cyflawni canlyniadau adfywio yn aml yn ymdrech hirdymor, nododd ymatebwyr bwysigrwydd sefydlogrwydd o ran trefniadau cyllid adfywio. Mae hyn yn her i'r broses o wneud newidiadau i ddsbarthiad a dyraniad cyllid.

Cymesuredd

Nododd nifer o ymatebwyr yr angen i sicrhau bod prosesau'n gymesur â'r canlyniadau arfaethedig o'r cyllid. Mynegwyd peth pryder fod y model busnes pum achos yn gallu mynd â llawer o amser prosiectau llai o faint. Hefyd, nododd nifer fach o ymatebwyr yr angen i sicrhau nad yw datblygu cynlluniau busnes lefel uchel yn peri oedi ar y lefel leol.

Rydym am sicrhau bod y gweithgareddau adfywio yn cael eu monitro a'u gwerthuso'n effeithiol. A fydd y dull o weithredu a argymhellir yn cyflawni hynny?

- 2.37 Mynegwyd cefnogaeth sylweddol i'r defnydd o Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau (ASG) gan nifer fawr o ymatebwyr. Bellach, ASG yw'r dull a ffefrir o asesu canlyniadau'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ac mae llawer o awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a sefydliadau trydydd sector hefyd yn defnyddio ASG i olrhain y gwahaniaeth y mae eu gwaith yn ei wneud i'r bobol sy'n derbyn eu gwasanaethau.
- 2.38 Teimlid bod y defnydd o ASG yn cynorthwyo'r broses o gyllido canlyniadau yn hytrach na gweithgareddau. Fodd bynnag, nodwyd hefyd fod angen cydnabod bod canlyniadau adfywio yn gallu cymryd peth amser i'w cyflawni.
- 2.39 I allu defnyddio ASG yn llwyddiannus, nododd nifer o ymatebwyr fod angen iddo redeg trwy'r fframwaith cyfan a'r dull o'i weithredu, yn cynnwys y meini prawf ar gyfer dethol prosiectau. Yn ogystal, bydd angen hyfforddiant, cymorth a rhywfaint o adnoddau i bobl gynefino ag ASG a datblygu dealltwriaeth gyffredin ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ynglŷn â'r ffordd orau o'i ddefnyddio.
- 2.40 Yn fwy cyffredinol, mewn perthynas â monitro a gwerthuso, teimlid bod angen cydnabod yr adnoddau sydd eu hangen. Mae angen i werthuso ddechrau cyn i brosiect ddechrau er mwyn sefydlu'r llinell sylfaen ar gyfer olrhain cynnydd a

pharhau am gyfnod sylweddol wedi i'r prosiect ddod i ben er mwyn cofnodi canlyniadau'n effeithiol. Nododd un ymatebydd y bydd angen cymesuredd o ran y cydbwysedd rhwng crynhoi tystiolaeth a chasglu data i gefnogi monitro a gwerthuso a'r broses o gyflawni canlyniadau mewn gwirionedd.

- 2.41 Nododd ymatebwyr y bydd angen integreiddio gwerthuso ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, o bosibl gyda dangosyddion wedi'u cytuno drwy Gymru a'r tri rhanbarth. Bydd angen i'r dull a gytunir fod yn weithredol am amser hir a bod yn ddigon cadarn i ganiatáu ar gyfer newidiadau yn y prosiectau a chyd-destun gweithredu'r prosiectau. Dylai monitro a gwerthuso cynnwys asesu manteision cymunedol o wariant adfywio. Hefyd, nodwyd y gallai fod lle i gysylltu'r gwaith o gasglu data a monitro â'r hyn a wneir mewn perthynas â chyflawni'r Cynlluniau Integredig Sengl.

3 Camau nesaf

- 3.1 Mae ymatebion yr ymgynghoriad, trafodaethau'r gweithdai a'r uwchgynhadledd ar adfywio wedi llywio'r ddogfen fframwaith adfywio derfynol sy'n cael ei lansio ar 11 Mawrth 2013.
- 3.2 Mae'r newidiadau mwyaf arwyddocaol a wnaed i'r ddogfen o ganlyniad i'r ymgynghoriad yn cynnwys y canlynol:
- cysylltiad cryfach ag agenda trechu tlodi a'r agenda swyddi a thwf
 - gofyn am geisiadau gan awdurdodau lleol sy'n gweithio gyda phartneriaid sector cyhoeddus, sector preifat a'r trydydd sector am gyllid adfywio wedi'i dargedu. Bydd y cyllid hwn yn cael ei fuddsoddi'n fwy dwys mewn llai o leoedd
 - sicrhau bod prosiectau'r UE yn cael eu hintegreiddio yn y cynlluniau rhanbarthol
 - nodi tair blaenoriaeth frys ar gyfer y gyllideb adfywio a neilltuwyd – canol trefi, cymunedau arfordirol a chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf
 - nodi systemau ymarferol i sicrhau bod polisïau a gweithgarwch Llywodraeth Cymru wedi'u cydgysylltu
- 3.3 Fel y dynodwyd yn y ddogfen ymgynghori, bydd 2013/14 yn flwyddyn o drawsnewid sy'n caniatáu amser ar gyfer datblygu'r dull o weithredu ymhellach, gan gynnwys sefydlu systemau llywodraethu a chyllido newydd. Rydym wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â phob rhanddeiliad perthnasol yn ystod y cyfnod hwn o newid.

Atodiad 1 Rhestr lawn o'r ymatebwyr

Awdurdodau lleol ac awdurdodau lleol yn cydweithredu (27)

Adran Datblygu Economaidd Cyngor Sir Caerfyrddin
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
Cynghrair y Cymunedau Diwydiannol (Cymru)
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Caerdydd
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Sir y Fflint x2
Cyngor Sir Ynys Môn
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Dinas a Dinas Abertawe
Gweithdy Aberystwyth
Partneriaeth Adfywio Economaidd Ynys Môn
Partneriaeth Ranbarthol Canol a De-orllewin Cymru

Sefydliadau trydydd sector (26)

ABC
Cadwch Gymru'n Daclus
Canolfan Cydweithredol Cymru
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cyngor y Celfyddydau
Cymdeithas Cludiant Cymunedol Cymru
Cymdeithas Chwaraeon Cymru
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
Cymorth Cymru
Cymorth Cynllunio Cymru
Chwarae Cymru
Chwarae Teg
Fern Smith
Glandŵr Cymru

Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
Maritime Heritage Trust
Planed
Rhoi Pobl yn Gyntaf Rhondda Cynon Taf x 2
Sefydliad Adeiladu a Thai Cymdeithasol
Ymddiriedolaeth Adfywio'r Tywysog
Ymddiriedolaeth Carnegie

Sefydliadau sector preifat (18)

Alan Brown Associates
Capital Regional Tourism
Cymdeithas Parcio Prydain
Cynnal Cymru
Dave Price, Capita Symonds
Ffederasiwn Busnesau Bach
Juliet Luporini, Ardal Gwella Busnes Abertawe
Keith Thomas, Per Consulting
Mark Barry
Owen Davies, Hyder Consulting
Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru
Pembrokeshire Business Panel
Pick Everard Regeneration Team
Pick Everard Wales View
Purepages Group
Robert Chapman
Stevens and Co
Winning Pitch

Cyrff proffesiynol (12)

ACPO Cymru
Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru
Cartrefi Cymunedol Cymru
Comisiwn Dylunio Cymru
Cydweithfa Sgiliau Adfywio
Panel Prif Swyddogion Tai Cymru Gyfan
Penaethiaid Cymru – Panel Technegol Tai Iechyd yr Amgylchedd
Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig
Sefydliad Tai Siartredig Cymru
Sefydliad Tirwedd Cymru
Sefydliad y Peirianwyr Sifil
Sgiliau Adeiladu Cymru

Cymdeithasau tai (11)

Cartrefi Conwy
Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru
Cymdeithas Tai Newydd
Cymdeithas Tai Rhondda
Grŵp Cartrefu Cymunedol Cynon Taf

Gwalia
Melin Homes
Newport City Homes
NPT Homes
RCT Homes
Seren
Tai Ceredigion

Sefydliadau sector cyhoeddus (10)

Amgueddfa Genedlaethol Cymru
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Comisiynydd Plant Cymru
Comisiynydd yr Iaith Gymraeg
Cronfa Dreftadaeth y Loteri
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Parc Rhanbarthol y Cymoedd
Parciau Cenedlaethol Cymru
Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru
Y Gronfa Loteri Fawr

Sefydliadau iechyd (10)

Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro
Bwrdd Iechyd Cwm Taf
Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Grŵp Ymgynghorwyr Iechyd y Cyhoedd
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Pwyllgor Fferyllol Cymru
Pwyllgor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru
Pwyllgor Optometrig Cymru
Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru

Gwleidyddion (cenedlaethol a lleol) (5)

Alun Cairns AS
Dylan Rees, Cyngor Tref Llangefni
Jane Hutt AC
Y Cynghorydd Ralph Cook
Y Cynghorydd Richard Bertin

Partneriaethau amlddisgyblaethol (3)

Fforwm Economaidd De-ddwyrain Cymru
Grŵp Dyfodol Cynaliadwy Ceredigion
Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru

Cynghorau Cymuned a chynghorau tref (3)

Cyngor Tref Penarth
Cyngor Tref y Barri

Un Llais Cymru

Sefydliadau eraill (9)

Boots

Bwrdd Ardal Adfywio Gorllewin y Cymoedd

Bwrdd Ymddiriedolwyr Eglwys Bae Cinmel

Cymdeithas Cludiant De-ddwyrain Cymru

Newport Unlimited

Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru

Prifysgol Casnewydd

The Charity Bank

Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo

A 10 unigolyn